# PAPURAU BUSNES

## 15 Rhagfyr 1999

## Rhan 1 – Adran G

## Rhybudd o Gynigion a Gwelliannau i'w Trafod yn y Dyfodol

**CYNNIG A GYFLWYNWYD AR 14 RHAGFYR 1999 I’W DRAFOD AR 15 RHAGFYR 1999 O DAN REOL SEFYDLOG 6.9**

**ANDREW DAVIES (*Gorllewin Abertawe) ;***

Cynnig bod y Cynulliad, er mwyn osgoi unrhyw amryfusedd sy’n deillio o’r anghysondeb rhwng fersiynau Cymraeg a Saesneg yr Adroddiad Grant Arbennig (Rhif 3) (Cymru) a ystyriwyd gan y Cynulliad ar 8 Rhagfyr 1999, ac fel mater o bwysigrwydd mawr i’r cyhoedd, sef ystyriaeth y mae’r Cynulliad wedi’i hawdurdodi o dan Reol Sefydlog 6.9, yn penderfynu mai’r Adroddiad a gymeradwyir gan y Cynulliad o dan Adran 88B o Ddeddf Cyllid Llywodraeth Leol 1988 ac yn unol â Rheol Sefydlog 19.10 yw’r un a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 14 Rhagfyr 1999;

**(NDM157VB)**

Cynigion a gyflwynwyd ar 8 Rhagfyr 1999

**Andrew Davies (Gorllewin Abertawe):**

Cynnig bod y Cynulliad hwn, ar drothwy'r Mileniwm, yn galw am ymdrech ar y cyd i hybu delwedd newydd a phositif Cymru, yn y wlad hon a thramor. (NDM153VB)

**Andrew Davies (Gorllewin Abertawe);**

Cynnig bod y Cynulliad

(a) yn ystyried adroddiad y Pwyllgor Deddfau ar Orchymyn drafft "Rheoliadau Rhestr Ardrethol Ganolog (Cymru) 1999", a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 22 Tachwedd 1999;

(b) yn ystyried egwyddor y Gorchymyn drafft, ac

(c) yn cymeradwyo llunio'r Gorchymyn yn unol â'r drafft a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 22 Tachwedd 1999. (NDM154VB)

**Andrew Davies (Gorllewin Abertawe);**

Bod y Cynulliad, yn unol â Rheol Sefydlog 19.7, yn cymeradwyo'r trosglwyddiadau ar draws y Grwpiau Prif Wariant ar gyfer blwyddyn ariannol 1999-2000, a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno **ddydd Mercher 8 Rhagfyr** gan yr Ysgrifennydd Cyllid, Edwina Hart.

Mae manylion ar gael ar y fewnrwyd. (NDM155VB)

**Andrew Davies (Gorllewin Abertawe);**

Cynnig bod y Cynulliad yn diolch i'r Pwyllgor Amaethyddiaeth a Datblygu Gwledig am ei ymchwiliad trylwyr i gig eidion ar yr asgwrn, a'i fod, yn unol â'r argymhelliad yn ei adroddiad (a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 8 Rhagfyr 1999), yn cymeradwyo'r Offeryn Statudol a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 8 Rhagfyr 1999 i godi'r gwaharddiad (ac eithrio wrth gynhyrchu cynhyrchion bwyd(gan gynnwys bwyd babanod)) o 17 Rhagfyr. (NDM156VB)

**Gwelliannau a gyflwynwyd ar 10 Rhagfyr 1999**

**NDM153**

**1. Glyn Davies (Canolbarth a Gorllewin Cymru);**

Cynnig bod y Cynulliad yn penderfynu mabwysiadu'r gwelliannau canlynol i'r cynnig uchod:

Yn dilyn "ar drothwy'r Mileniwm", nodi "yn cydnabod perfformiad gwael y Weinyddiaeth yn ystod 1999 ac"

**2. Cynog Dafis (Canolbarth a Gorllewin Cymru);**

Cynnig bod y Cynulliad yn penderfynu mabwysiadu'r gwelliannau canlynol i'r cynnig uchod:

Yn dilyn "hwn" yn y llinell gyntaf, dileu "ar drothwy'r Mileniwm" ac ychwanegu:

"gan nodi'r cynnydd mewn hunan-hyder cenedlaethol a'r dymuniad cyffredinol i Gymru gymryd mwy o gyfrifoldeb dros y penderfyniadau sy'n effeithio ar fywyd ei phobl a

chynaliadwyedd ei chymunedau,"

**3. Cynog Dafis (Canolbarth a Gorllewin Cymru);**

Yn Llinell 2, dileu "Cymru" a nodi "ein gwlad"

**4. Michael German (Dwyrain De Cymru);**

Cynnig bod y Cynulliad yn penderfynu mabwysiadu'r gwelliannau canlynol i'r cynnig uchod:

Ychwanegu ar ddiwedd y cynnig: "Mae'r Cynulliad hwn yn edifarhau am ddirywiad Grp Brandio Cymru ac yn penderfynu cychwyn ar drafodaeth genedlaethol i gynnwys holl Bwyllgorau'r Cynulliad yn ogystal â'r sectorau cyhoeddus, preifat a gwirfoddol, i sicrhau bod unrhyw ddelwedd a gyflwynir o Gymru yn gyson ag amcanion a dyheadau pobl Cymru"

**5. Michael German (Dwyrain De Cymru);**

Cynnig bod y Cynulliad yn penderfynu mabwysiadu'r gwelliannau canlynol i'r cynnig uchod:

Ychwanegu ar ddiwedd y cynnig: "Mae'r Cynulliad hwn yn penderfynu cymryd y camau canlynol i wella a hybu delwedd Cymru:

- sicrhau datblygiad gwefan allanol y Cynulliad ei hun fel porth electronig i wybodaeth am Gymru, i gynnwys cysylltiadau â gwasanaeth cynllunio a bwcio ar-lein cynhwysfawr i ymwelwyr â Chymru

- annog hybu bwyd o Gymru mewn siopau, bwytai a gwestai ym mhob rhan o Gymru fel rhan o brofiad cyfan i ymwelwyr

- rhoi pwyslais cryf ar annog entrepreneurs cynhenid o Gymru mewn mentrau preifat a chymunedol"

**NDM 156**

**1. Mick Bates (Maldwyn);**

Ychwaneger at ddiwedd y cynnig: "Mae’r Cynulliad fodd bynnag yn gresynu bod ei Bwyllgor Amaethyddiaeth a Datblygu Gwledig wedi cael ei danseilio gan y penderfyniad i gyhoeddi codi’r gwaharddiad ar gig eidion ar yr asgwrn ychydig cyn roedd y Pwyllgor am gyhoeddi ei gasgliadau ar y mater"

**2. Glyn Davies (Canolbarth a Gorllewin Cymru);**

Cynnig bod y Cynulliad yn penderfynu mabwysiadu'r gwelliannau canlynol i'r cynnig uchod:

Yn dilyn "ar yr asgwrn" ychwanegu "ac yn edifarhau am y ffordd niweidiol y mae'r Llywodraeth wedi tanseilio gwaith y Pwyllgor"

**3. Andrew Davies (Gorllewin Abertawe);**

Cynnig bod y Cynulliad yn penderfynu mabwysiadu'r gwelliannau canlynol i'r cynnig uchod:

Dileu popeth ar ôl "(a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 8 Rhagfyr 1999)" ac ychwanegu "yn cyfarwyddo'r Ysgrifennydd Amaethyddiaeth i lunio'r offeryn statudol priodol dan y weithdrefn frys er mwyn sicrhau gweithredu argymhelliad y pwyllgorau o 17 Rhagfyr".